# Amserlen Penderfyniadau

## Panel Trwyddedu (Tacsi)

**I BOB AELOD CYNGOR DINAS CASNEWYDD**

**Atodlen Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 6 Chwefror 2019**

Gwnaeth y Panel Trwyddedu Tacsis y penderfyniadau canlynol ar 5 Chwefror 2019, a ddaeth i rym ar unwaith.

Cynghorwyr: D Davies (Cadeirydd), H Thomas, J Hughes, Y Forsey, J Cleverly, W Routley

## Rhan 2

### Eitemau Eithriedig neu Gyfrinachol

Mae'r eitemau canlynol yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Felly, nid yw adroddiadau a phapurau cefndir sy'n ymwneud â'r penderfyniadau hyn i'w cyhoeddi ac maent yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf fel y maent yn ymwneud â chylchrediad i'r wasg a'r cyhoedd.

**LIC PAN 02/19**

### Trwyddedau Llogi Preifat / Cerbydau Hacni

### Penderfyniad

Gyrrwr AS

1. Ystyriodd y Panel y dystiolaeth a gynhwysir yn yr adroddiad gan yr Awdurdod Trwyddedu a chlywodd dystiolaeth y gyrrwr AS. Yn dilyn ystyriaeth ofalus, penderfynodd y Panel y dylid rhoi rhybudd i AS a bod angen iddo ailsefyll y Prawf Gwybodaeth o fewn chwe wythnos.

Gyrrwr ARS

2. Gohiriwyd y mater gan nad oedd y gyrrwr yn gallu bod yn bresennol oherwydd amgylchiadau annisgwyl.

Gyrrwr AH

3. Rhoddodd y Panel ystyriaeth ofalus i'r dystiolaeth ger eu bron a phenderfynu peidio â chyflwyno Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat i AH, o ganlyniad i'r dystiolaeth a gyflwynwyd. Ni dderbyniodd y Panel yr esboniad a roddwyd gan yr Ymgeisydd a phenderfynodd nad oedd yn berson addas a phriodol. Yn hytrach, gwnaethant dderbyn y dystiolaeth a ddarparwyd gan Heddlu De Cymru a'r achwynydd a'r penderfyniadau diweddar a wnaed gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot, yr ynadon a Barnwr Llys y Goron nad oedd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded Gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat.

### Ymgynghoriad

Ddim yn berthnasol.
**Gweithredir gan:** Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio
**Amserlen Weithredu:** Ar unwaith